## Yr asesiad interim a'r dadansoddiad risg

Dadansoddir yr wybodaeth o bob agwedd ar yr adolygiad eang. Mae hynny'n cynnwys archwilio ymhellach y dystiolaeth a gafwyd o'r wybodaeth ragarweiniol, yr arolygon (defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, staff, partneriaid a rhanddeiliaid), y sampl o ffeiliau achos, cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol a'r rhaglen o ymweliadau gan yr asesydd lleyg.

Wedyn, mae'r tîm cydadolygu'n cyfarfod er mwyn:

- sefydlu faint o dystiolaeth ddibynnol sydd eisoes wedi'i chasglu;
- nodi unrhyw fylchau yn y dystiolaeth y mae angen eu llenwi, drwy gyfeirio at y meysydd sydd i'w harchwilio fel y'u nodir yn y meini prawf dyfarnu (gweler Adran 0.6 yn y Llawlyfr);
- gwneud asesiad cychwynnol o'r cryfderau a'r gwendidau cymharol;
- penderfynu ar ba feysydd y byddir yn canolbwyntio yn y prif waith maes ar sail dadansoddiad risg.

Bydd yr arolygydd cyswllt o Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, y rheolwr perthynas o Swyddfa Archwilio Cymru a'r sawl sy'n darparu'r gwasanaeth archwilio dosbarth ar gyfer yr awdurdod yn cyfrannu at y broses hon.

Cadeirir y cyfarfod gan safonwr allanol, ac mae hynny'n elfen allweddol mewn sicrhau ansawdd cydadolygiadau. Bydd y safonwr yn cynghori'r adolygydd arweiniol ac, fel bo'n briodol:

- yn herio unrhyw ganfyddiadau neu ddamcaniaethau interim, er mwyn sicrhau bod yna dystiolaeth ddigonol ar gael;
- yn cadarnhau pa wybodaeth ychwanegol y mae angen ei cheisio drwy waith maes yr adolygiad manwl.

Ar ddiwedd yr asesiad interim, dylai fod yna:

- asesiad o'r data sydd ar gael, a phenderfyniad ar yr eitemau y mae angen eu gwirio, yr wybodaeth bellach sydd i'w cheisio a'r deunydd sy'n debygol o fod o gymorth ar gyfer paratoi'r adroddiad terfynol;
- set o gwestiynau neu faterion y mae angen ymchwilio iddynt yn ystod y cam gwaith maes;
- asesiad o sut y dylid dyrannu adnoddau'r tîm cydadolygu, er mwyn canolbwyntio ar y prif faterion ar gyfer yr adolygiad hwnnw ac ar gyfer yr awdurdod lleol.

Wrth benderfynu ar beth y dylid canolbwyntio yn y prif waith maes, nod y tîm fydd cyflwyno darlun cytbwys o'r gwasanaeth. Mae hyn yn golygu ymchwilio ymhellach i unrhyw feysydd sy'n achosi pryder sylweddol a hefyd unrhyw feysydd sy'n amlygu arfer da. Bydd y penderfyniad hefyd yn cymryd i

ystyriaeth unrhyw flaenoriaethau cenedlaethol. Gall y tîm edrych am haenau neu drawstoriadau o'r gwasanaethau sy'n debygol o adlewyrchu materion ehangach.

Unwaith y bydd yr asesiad interim a'r dadansoddiad risg wedi'u cwblhau, bydd yr adolygydd arweiniol yn dechrau cynllunio'r rhaglen ar gyfer gwaith maes yr adolygiad manwl gyda swyddog cyswllt yr awdurdod lleol.